

Fforwm y Gyllideb - Grŵp Adolygu Fformiwla Prif Ffrwd 2025-26

Cynnig i adolygu Fformiwla Ariannu Ysgolion Prif Ffrwd o fis Ebrill 2026

1. Aelodaeth Grŵp Adolygu Fformiwla

Penaethiaid	Llywodraethwyr	Swyddogion
Blackwell Dave (YU)	Duxbury Jon (YG)	Baker Trevor
Butterworth Ruth (YG)		Cox Rachel
Golding Ty (YG)		Lewis Lisa
Jones Rhys-Angell (3-19)		Mawhinney Sam
Mansfield James (YU)		Monckton Nicola
Thomas Debra (3-19)		
Tweedley Luke (YG)		

Cyfarfu grŵp Adolygu Fformiwla Ysgolion Prif Ffrwd ar 7 Gorffennaf ac 16 Medi 2025.

2. Cylch Gorchwyl

Sefydlwyd grŵp adolygu fformiwla prif ffrwd 2025/26 fel is-grŵp o Fforwm y Gyllideb i adolygu'r fformiwla ariannu bresennol ar gyfer ysgolion prif ffrwd a gwneud argymhellion ar gyfer newid.

Gweithredwyd y fformiwla ariannu bresennol yn dilyn adolygiad 2016 o'r fformiwla ariannu a gymeradwywyd gan Fforwm y Gyllideb a'i weithredu ym mis Ebrill 2017.

Y meysydd ffocws o fewn adolygiad fformiwla prif ffrwd 2025/26 fydd:

- Data niferoedd disgyblion
- Dyrannu cyllid addysgu
- Dyrannu arbedion effeithlonrwydd

3. Niferoedd Disgyblion wedi'u Haddasu

Mae cyllid disgyblion o fewn y fformiwla ariannu prif ffrwd bresennol yn cael ei yrru gan gyfrifiad cyfartalog "nifer disgyblion wedi'i addasu" sy'n ystyried rhagamcanion disgyblion yn y dyfodol ac yn hunan-gywiro ar gyfer rhagamcanion anghywir y flwyddyn flaenorol.

O dan y system bresennol, mae ysgolion yn cael eu hariannu yn ôl disgyblion ar sail y cyfrifiad canlynol

- Niferoedd disgyblion ar y gofrestr ym mis Ionawr cyn y flwyddyn gyllid (y mae'n rhaid iddynt gydberthyn â CYBLD)

- Adio 50% o'r rhagamcanion disgyblion a ddarperir gan ysgolion ar gyfer y mis Ionawr canlynol
- Tynnu 50% o'r rhagamcanion disgyblion a ddarparwyd gan ysgolion yn y flwyddyn flaenorol

Rhesymeg dros Newid Fformiwla

Mae'r dull presennol yn rhoi pwysau cyllid ar ysgolion lle mae rhagamcanion wedi'u goramcangyfrif, sy'n arwain at adennill cyllid yn awtomatig yn y flwyddyn ariannol ganlynol.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn adolygu fformiwla'u ariannu ledled Cymru ac wedi nodi llawer o amrywiadau ar y dulliau a ddefnyddir i ddosbarthu cyllid ar sail disgyblion gan arwain at anghyfartaledd cyllid ar sail disgyblion ledled Cymru.

Mae'r rheoliadau cyllid yn nodi y dylai fformiwla'u ariannu fod yn syml, yn wrthrychol, yn fesuradwy ac yn hawdd eu rhagfynegi. Mae'r dull presennol sydd ar waith ym Mro Morgannwg yn ymddangos yn fwy cymhleth nag mewn awdurdodau lleol eraill.

Cynnig

- Dylid disodli'r system bresennol o gyfrifo cyfartaledd nifer disgyblion wedi'i addasu i yrru'r fformiwla gyda chyfrifo'n syml nifer y disgyblion yn y mis Ionawr cyn y flwyddyn ariannol dan sylw. Rhaid i'r cyfrif disgyblion ym mis Ionawr gyd-fynd â'r data a ddarparwyd ar gyfer y CYBLD diweddaraf.
- Felly bydd y fformiwla yn seiliedig ar y data CYBLD diweddaraf (na fydd wedi'i ddilysu tan yr haf). Er enghraifft, bydd fformiwla ariannu 2026/27 yn cael ei yrru gan ddata CYBLD Ionawr 2026.
- Ni fydd unrhyw addasiad i gywiro rhagamcanion anghywir a ddarperir ym mis Ionawr 2025.
- Bydd ysgolion bob amser yn cael eu hariannu blwyddyn ar ôl o ran y gyllideb i gyd-fynd â niferoedd disgyblion ar gyfer y derbyniad ym mis Medi.
- Bydd disgyblion meithrin yn parhau i gael eu hariannu ar 0.5CALI.
- Bydd y data meithrin yn cael ei gasglu ym mis Ionawr hefyd gyda gweddill poblogaeth yr ysgol. Mae dyddiad Ionawr yn cael ei ystyried yn ganolbwynt y flwyddyn ysgol. Er nad yw'n ariannu'r disgyblion a fydd yn cofrestru ar ôl y Pasg, mae'n darparu blwyddyn lawn o gyllid i'r disgyblion sy'n cofrestru ym mis Ionawr. Mae derbyniadau mis Ionawr bob amser yn uwch na'r rhai yn y Pasg, felly ni fydd ysgolion dan anfantais gan y dull hwn.

4. Arbedion Effeithlonrwydd

Ym mis Ebrill 2023, dyrannwyd arbediad effeithlonrwydd o £2.75M i gyfanswm cyllideb ysgolion; cymhwyswyd toriad effeithlonrwydd arall o £1.2M ym mis Ebrill 2025.

O ganlyniad, mae dyraniad negyddol o £3.95M o fewn fformiwla ysgolion o ran arbedion effeithlonrwydd parhaus i'w nodi bob blwyddyn.

Rhesymeg dros Newid Fformiwla

Gan na fu adolygiad swyddogol o'r fformiwla i ddyrannu'r arbedion effeithlonrwydd o £3.95M i linellau cyllideb y fformiwla, mae'r fformiwla yn dyrannu cyllid ar gyfer gwahanol feysydd fel addysgu, ADY a Chynorthwywyr Cymorth Dysgu ac yna'n gwrthbwysu dyraniad pob ysgol gyda tharged arbedion negyddol.

O ganlyniad, mae dyraniadau pob ysgol ar gyfer llinellau cyllideb unigol yn gamarweiniol ac nid ydynt wedi'u nodi net o arbedion effeithlonrwydd a gymhwyswyd.

Cynnig

- Bydd y targedau arbedion effeithlonrwydd yn cael eu cymhwyso ar sail pro-rata i linellau cyllideb unigol, gan gynnwys addysgu, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu, adeiladau ac ADY.
- Ni fydd ysgolion yn cael targedau arbedion effeithlonrwydd fel dyraniad fformiwla negyddol mwyach, ond bydd pob dyraniad arall yn lleihau ar sail pro-rata.

5. Cymarebau addysgu a chyflogau addysgu cyfartalog

Mae cyllid addysgu o fewn y fformiwla ariannu prif ffrwd bresennol yn cael ei yrru i raddau helaeth gan werthoedd Uned a Bwysolwyd ar sail Oedran y Disgybl (Gwerthoedd AWPU) sy'n cael eu cyfrifo gan ddefnyddio cymarebau addysgu ac ysgogydd cyflog addysgu fesul sector.

Cytunwyd ar y cymarebau disgybl i athro o fewn y fformiwla ariannu prif ffrwd gan Fforwm y Gyllideb yn dilyn adolygiad fformiwla ariannu 2016. Cynhaliwyd yr adolygiad fformiwla gan benaethiaid sy'n cynrychioli pob sector a chlwstwr daearyddol.

Mae cymarebau addysgu yn cael eu lluosio ag ysgogydd cyflog addysgu cyfartalog o fewn y fformiwla i gyfrifo cyllid addysgu a ddyrannwyd fesul ysgol.

Cytunodd grŵp adolygu fformiwla 2016 mai'r dull ar gyfer cyfrifo'r ysgogydd cyflog addysgu fyddai defnyddio'r cyflog cyfartalog gwirioneddol yn y ddau sector. Fodd bynnag, dim ond lefel gyfyngedig o gyllid athrawon sydd ar gael. Felly, mae symiau o'r cyfrifiad hwn yn cael

eu lleihau pro-rata fel bod y fformiwla yn fforddiadwy o fewn cyfanswm y cyllid addysgu sydd ar gael.

Mae'r ysgogyddion cyflog sy'n deillio o hynny yn is na chost UPS2 (£69,913) ac yn is na'r gost gyfartalog fesul athro mewn ysgolion.

Mae'r cymarebau disgybl i athro a'r ysgogyddion cyflog cyfartalog o fewn y fformiwla ariannu prif ffrwd wedi'u nodi yn y tabl canlynol.

Tabl sy'n nodi'r cymarebau addysgu presennol a'r ysgogyddion cyflog yn fformiwla yr ysgolion

Grŵp blwyddyn	Cymhareb Disgybl i Athro	Ysgogydd Cyflog Athro
Cynradd (cyfan)	30 a 10% CPA	£68,319
Uwchradd Blwyddyn 7-9	20	£69,548
Uwchradd Blwyddyn 10-11	15	£69,548

Rhesymeg dros Newid Fformiwla

Gofynnodd ysgolion clwstwr cynradd y Barri am adolygiad o'r fformiwla ariannu prif ffrwd o ran yr arian a ddyrannwyd i athrawon.

Gweithredwyd y cymarebau addysgu presennol yn 2011 yn dilyn penderfyniad fforwm y gyllideb i addasu'r fformiwla mewn ymateb i ostyngiad yn nifer y disgyblion yn y sector uwchradd. Cyn y penderfyniad hwnnw, ariannwyd disgyblion uwchradd blwyddyn 10-11 ar gymhareb disgybl i athro o 17, yn hytrach na'r 15 presennol; ac ariannwyd disgyblion blwyddyn 7-9 ar gymhareb disgybl i athro o 22.5.

Mae cymarebau Bro Morgannwg yn ymddangos yn fwy hael tuag at y sector uwchradd nag mewn awdurdodau lleol eraill.

Y sefyllfa gau yn 2024/25 ar gyfer ysgolion cynradd oedd diffyg net cyffredinol o £4.7M, y sefyllfa gau ar gyfer ysgolion 3-19 oedd diffyg net o £149,000 a'r sefyllfa gau ar gyfer ysgolion uwchradd oedd gwarged net o £241,000.

Cynnig

Ar ôl modelu nifer o opsiynau, mae'r grŵp adolygu wedi nodi opsiwn a ffeirir a fyddai'n cynnwys newid i'r cymarebau addysgu yn y sectorau cynradd, a fydd yn symud £1.073M allan o gyllid uwchradd i mewn i gyllid cynradd.

Y newidiadau arfaethedig yw:

- Gostwng y gymhareb disgybl i athro sylfaenol o 30 (gyda lwfans ychwanegol ar gyfer CPA) i 27.
- Cynyddu'r gymhareb uwchradd blwyddyn 10-11 o 15 i 17.
- Mae'r cyfrifiadau cyflog cyfartalog yn parhau i gael eu gyrru gan gyfartaleddau pob sector ac yn cael eu dosrannu ar sail pro-rata.

Mae'r tabl canlynol yn nodi effaith y newidiadau arfaethedig ar y fformiwla ariannu.

Sylwer: Er mwyn sicrhau cymhariaeth, nid yw'r tabl canlynol yn ymgorffori'r toriadau pellach i gyllid addysgu o ganlyniad i alinio'r arbedion effeithlonrwydd a nodwyd yn gynharach yn y ddogfen hon.

Newidiadau arfaethedig i gyllid athrawon o fewn y fformiwla brif ffrwd o fis Ebrill 2026

	Cyfredol (dim newid)	Arfaethedig (Gostwng y gymhareb disgybl i athro gynradd i 27 sy'n cynnwys CPA, cynyddu'r gymhareb disgybl i athro blwyddyn 10-11 i 17)
Cymhareb disgybl i athro Cynradd	30 a 10% CPA	27 (dim ychwanegiad CPA)
Cymhareb disgybl i athro Blwyddyn 7-9	20	20
Cymhareb disgybl i athro Blwyddyn 10-11	15	17
Cyflog Cyfartalog Cynradd	£68,319	£70,022.40
Cyflog Cyfartalog Uwchradd	£69,548	£71,282.04
Cyllid disgybl i athro cynradd	£29,560,451	£30,603,516
Lwfans ysgolion bach cynradd, (dim newid i'r fformiwla, ond mae'n gysylltiedig ag ysgogydd cyflog)	£1,058,945	£1,085,347
Cyllid Safle Hollt Cynradd	£284,554	£287,961
Cyfanswm y Cyllid Cynradd ar sail disgyblion	£30,903,950	£31,976,824
Cynnydd mewn cyllid cynradd		+£1,072,875
Cyllid uwchradd ar sail disgyblion	£32,699,390	£31,626,515
Gostyngiad oedran uwchradd		-£1,072,875
Is-gyfanswm cronfeydd addysgu (	£63,603,340	£63,603,340

Dyraniadau Penaethiaid	£6,930,185	£6,930,185
CYFANSWM cronfeydd addysgu	£70,533,524	£70,533,524

Effaith ariannol opsiynau cyllid addysgu fesul sector

Mae ysgolion trwodd (3-19) yn cael eu hariannu gan gyllid AWPU cynradd ac uwchradd. Nodir yr effaith ar y tri sector yn y tabl isod.

	Ysgolion Cynradd	Ysgolion Uwchradd	Ysgolion 3-19	CYFANSWM
Cyfredol	£35,358,736	£25,223,130	£9,951,659	£70,533,524
Arfaethedig	£36,407,902	£24,421,018	£9,704,605	£70,533,525
Amrywiad	+£1,049,166	-£802,112	-£247,053	£0

6. Cyllid Penaethiaid

Yn y fformiwla ariannu, mae pob ysgol yn derbyn dyraniad cyfandaliad ar gyfer Pennaeth yn seiliedig ar ganolbwynt ystod ysgol unigol yr ysgol ynghyd â chostau gweithredu. (Darperir yr ystodau ysgol unigol gan AD yn flynyddol.)

Nid yw'r grŵp adolygu wedi nodi dull amgen ar gyfer ariannu Penaethiaid o fewn y fformiwla. Gellir ychwanegu hyn at adolygiad fformiwla yn y dyfodol.

7. Lwfans Ysgolion Bach

Mae ysgolion cynradd llai yn derbyn lwfans ysgolion bach i ddarparu sicrwydd cyllideb a hyblygrwydd i ysgolion sydd â maint dosbarthiadau llai na llawn.

Penderfynodd grŵp adolygu fformiwla 2016 mai'r maint gorau ar gyfer ysgol yw 210 o ddisgyblion (ynghyd â meithrin) ac felly byddai unrhyw ysgol o dan y maint hwn dan anfantais ariannol o ran cyllid ar sail disgyblion.

Cytunodd grŵp adolygu fformiwla 2016 fod unrhyw ysgol â llai na 140 o ddisgyblion dan anfantais bellach a gweithredodd y lwfans ysgolion bach canlynol yn y fformiwla ariannu

- Ysgolion sydd â 140 o ddisgyblion (ac eithrio meithrin) neu lai - Un athro
- Ysgolion sydd â llai na 210 o ddisgyblion (ac eithrio meithrin) – Hanner athro

Mae lwfans ysgolion bach 2025/26 yn seiliedig ar yr ysgogydd addysgu cyfartalog yn y fformiwla. Mae pob ysgol sydd â llai na 140 o ddisgyblion (ac eithrio meithrin) yn derbyn lwfans cyfandaliad o £68,319 ac mae pob ysgol â mwy na 140 o ddisgyblion (ac eithrio meithrin) ond llai na 210 yn derbyn lwfans cyfandaliad o £34,159.50. Cyfanswm y cyllid a ddyrennir i'r lwfans ysgolion bach yw £1,058,945 gyda 25 o ysgolion yn derbyn dyraniad.

Er nad yw'r lwfans ysgolion bach yn rhan o'r adolygiad fformiwla cyfredol, dylid cydnabod y bydd newid i'r ysgogydd cyflog cyfartalog yn y sector cynradd yn effeithio'n awtomatig ar y lwfans ysgolion bach.

8. **Crynodeb**

Newidiadau arfaethedig i'r fformiwla ariannu ysgolion prif ffrwd o fis Ebrill 2026:

- Defnyddio'r data CYBLD diweddaraf heb ei ddilysu i yrru'r fformiwla ariannu
- Dileu llinellau cyllideb negyddol ar gyfer arbedion effeithlonrwydd, a fydd yn lle hynny yn gwrthbwyso pob dyraniad ar sail pro rata
- Newid i gymarebau addysgu, lleihau cymarebau addysgu cynradd i 27 a chynyddu cymarebau blwyddyn 10 ac 11 i 17.